**PWYLLGOR CRONFA BENSIYNAU CLWYD**
**30 AWST 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd Cyngor Sir y Fflint, a gynhaliwyd ar ffurf cyfarfod hybrid yn Neuadd y Sir am 9.30am ddydd Mercher, 30 Awst 2023, gyda mynychwyr o bell ar Zoom.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ted Palmer (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Jason Shallcross, Antony Wren, Sam Swash

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Y Cyng. Andy Rutherford (Cynrychiolydd Cyflogwyr Eraill y Cynllun), y Cyng. Anthony Wedlake (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), y Cyng. Gwyneth Ellis (Cyngor Sir Ddinbych) a Mr Steve Hibbert (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun)

**HEFYD YN BRESENNOL (FEL ARSYLWYR):** Phil Pumford (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun ar Fwrdd y Gronfa Bensiynau)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cyng. Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint)

Panel Ymgynghorol: Philip Latham (Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd), Gary Ferguson (Rheolwr Cyllid Corfforaethol), Paul Middleman (Actiwari'r Gronfa – Mercer), Steve Turner (Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa – Mercer).

Swyddogion/Ymgynghorwyr: Debbie Fielder (Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd), Karen Williams (Rheolwr Gweinyddu Pensiynau), Alison Murray (Ymgynghorydd Annibynnol Amgen, Aon), Sandy Dickson (Ymgynghorydd Buddsoddi – Mercer), Ieuan Hughes (Hyfforddai Buddsoddiadau Graddedig) a Morgan Nancarrow (Cynorthwyydd Gweinyddol Llywodraethu – cymryd cofnodion).

Siaradwyr Gwadd yn Cyflwyno
Michelle Phoenix (Archwilio Cymru)

Croesawodd y Cadeirydd Michelle Phoenix o Archwilio Cymru i'r cyfarfod, a fydd yn cyflwyno'r cynllun archwilio dan eitem 3. Eglurodd fod gan y cyfarfod raglen lawn iawn ond bod llawer o eitemau i'w nodi'n unig ac felly na fyddant yn cael eu cyflwyno mewn manylder – ond gwahoddir sylwadau a chwestiynau yn ôl yr arfer.

1. **DATGAN CYSYLLTIAD (yn cynnwys gwrthdaro buddiannau)**

Gwahoddwyd y rhai a oedd yn bresennol gan y Cadeirydd i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau parthed y Gronfa, ar wahân i'r rheiny a gofnodwyd eisoes yng nghofrestr y Gronfa.

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad newydd.

2. **COFNODION 29 MAWRTH 2023**

Cadarnhaodd Mr Hibbert, o ran tudalen 11 y cofnodion, bod Mrs Fielder wedi anfon rhagor o ohebiaeth gan Robeco – sy'n well eu trafod dan eitem rhif 13.

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2023.

**PENDERFYNWYD:**

Bod cofnodion cyfarfod 29 Mawrth 2023 yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

3. **ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT A CHYFRIFON 2022/23**

Cyflwynodd Michelle Phoenix, Rheolwr Archwilio Ariannol, Archwilio Cymru (sy'n gyfrifol am archwiliad allanol y gronfa) gefndir i'r cynllun archwilio. Eglurodd fod y cynllun archwilio manwl ar gyfer archwiliad 2022-23 yn cynnwys negeseuon allweddol at sylw'r Pwyllgor ac amlygodd y bydd dull newydd i'r archwiliad eleni yn sgil cyflwyno Safon Archwilio Rhyngwladol 315 (ISA 315). Mae ISA 315 yn rhoi mwy o bwyslais ar gynllunio'r archwiliad ac yn cynnwys dull gronynnog sy'n edrych yn fanwl ar gyfrifon y gronfa a rheolaethau mewnol, gan nodi risgiau sy'n berthnasol i'r archwiliad. Mae hyn yn golygu archwiliad gyda mwy o ffocws a mwy o waith yn cael ei wneud cyn archwilio'r datganiadau ariannol. Mae'r newid hwn wedi arwain at gynnydd yn y ffi: 10.2% o'r cynnydd yn sgil ISA 315, yn ogystal â chostau ychwanegol oherwydd chwyddiant.

Dywedodd fod dau aelod o'r tîm archwilio yn aelodau gohiriedig o'r Gronfa, ond bod mesurau diogelu yn eu lle i sicrhau nad oedd hyn yn effeithio ar annibyniaeth yr archwiliad.

Aeth Mrs Fielder drwy'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon drafft, sy'n rhaid eu cyhoeddi cyn 1 Rhagfyr pob blwyddyn yn unol â rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Cadarnhaodd fod Swyddog Adran 151 Cyngor Sir y Fflint wedi adolygu'r cyfrifon a bod ei sylwadau wedi'u cynnwys. Diolchodd i Mercer am eu cefnogaeth wrth baratoi'r adroddiad a dywedodd fod y ddogfen hon i'w hystyried ar ei ffurf drafft, ac y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud o ran cyflwyniad a hygyrchedd y ddogfen cyn cyflwyno'r fersiwn archwiliedig derfynol i'r Pwyllgor ei chymeradwyo ar 29 Tachwedd.

Dywedodd Mrs Fielder, wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol drafft, fod y gronfa yn ceisio cydymffurfio â chanllawiau CIPFA. Amlygodd, ar dudalen 152 y pecyn, y gost wirioneddol o gymharu â'r gyllideb – sy'n dangos gorwariant o £4.9 miliwn ar y gyllideb £23.7 miliwn, yn bennaf oherwydd gorwariant o £5.5 miliwn ar dreuliau rheoli buddsoddiadau. Eglurodd Mrs Fielder beth oedd y treuliau rheoli buddsoddiadau a nododd y llynedd fod y gronfa wedi tangyllidebu ar gyfer ffioedd buddsoddiadau, yn enwedig ffioedd perfformiad yn y portffolio marchnad breifat.

Siaradodd am y cyfrifon a'r adroddiad ariannol, yn cynnwys y llif arian o gymharu â'r gyllideb ac eglurodd y rhesymau dros rai o'r amrywiadau. Yna aeth drwy rannau olaf yr Adroddiad Blynyddol, yn cynnwys y strategaethau a'r polisïau allweddol a fydd yn cael eu cynnwys yn adran 5 yr adroddiad terfynol.

Dywedodd Mr Hibbert bod yr adroddiad blynyddol yn ffordd dda i feirniadu cynnydd y gronfa ar draws sawl maes. Diolchodd i bawb a fu'n rhan o'r broses am yr holl waith sydd wedi'i wneud a'r cynnydd yn ystod y flwyddyn.

Soniodd y Cyng. Swash am y daflen ffeithiau Good Economy a gyfeirir ati yn yr adroddiad. Cyfeiriodd at y 10% a fuddsoddwyd yng Nghymru, gyda hanner hynny wedi'i fuddsoddi yng Nghronfa Clwyd, a bod arno eisiau adolygu'r data yn fanylach. Diolchodd i'r swyddogion am ddarparu'r adroddiad.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

a) Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol drafft y Gronfa ar gyfer 2022/23 yn cynnwys y Datganiad Cyfrifon drafft.
b) Nodi a gwneud sylwadau ar gynllun Archwilio Cymru.
c) Nododd llythyr yr Ymholiadau Archwilio a'r ymateb.

4. **<u>YMGYNGHORIAD ADRAN FFYNIANT BRO, TAI A CHYMUNEDAU YNGHYLCH Y CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL: CAMAU NESAF O RAN BUDDSODDIADAU</u>**

Aeth Mr Latham drwy'r adroddiad Mae'r swyddogion a'r ymgynghorwyr yn cynnig ymateb drafft i'r ymgynghoriad, ond maent yn nodi y dylai'r ymateb terfynol fod gan y Pwyllgor. Felly gofynnir i'r Pwyllgor ddarparu sylwadau. Mae'r ymateb arfaethedig wedi'i lunio o safbwynt Cronfa Bensiynau Clwyd. Bydd cronfeydd eraill o fewn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn debygol o gael eu heffeithio mewn ffyrdd gwahanol ac felly yn amlygu materion gwahanol.

Dywedodd Mr Latham y bydd PPC yn cyflwyno ei ymateb ei hun i'r ymgynghoriad a bydd gan y Gweithgor Swyddogion ac I, fel aelod o'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu, gyfle i ddarparu mewnbwn. Gobeithir y bydd cysondeb yn yr ymatebion gan gronfeydd ar draws Cymru ac felly mae'r atodiad yn nodi meysydd allweddol y mae'r Gronfa yn bwriadu defnyddio barn PPC unwaith maent wedi cytuno ar eu hymateb hwy.

Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn nodi a yw PPC yn cael ei heithrio o'r isafswm maint cronfa arfaethedig o £50 biliwn. Fodd bynnag, mae swyddogion yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi awgrymu nad oes bwriad i ofyn am gyfuno trawsffiniol felly byddai PPC yn cael eithriad. Efallai y bydd ymateb PPC yn pwysleisio hynny. Eglurodd Mr Latham fod ymateb y gronfa wedi'i ddrafftio ar sail bod y Pwyllgor yn hapus i PPC barhau â'i threfniant presennol a gofynnodd i'r Pwyllgor gadarnhau a yw hynny'n wir, ac nid oedd gwrthwynebiad i hynny.

Aeth drwy bwyntiau allweddol yr ymateb drafft gan nodi nad yw barn swyddogion ac ymgynghorwyr yn ategu'r cynigion yn yr ymgynghoriad, gan amlygu:

- Barn y Gronfa o ran y dylai'r strategaeth fuddsoddi barhau i gael ei phenderfynu arni'n lleol gan y Pwyllgor ac na ddylai cronfeydd orfod darparu cyngor ar fuddsoddi gan y byddai hynny'n ymddangos fel achos o wrthdaro buddiannau.
- Y cynnig y dylid alinio strategaethau buddsoddi'r cronfeydd cyfansoddol yn agos iawn. Mae gan y Gronfa ei rhwymedigaethau ei hun ac yn rheoli risgiau o ran chwyddiant a chyfraddau llog mewn ffyrdd gwahanol i gronfeydd eraill. Dan y cynigion ni fyddai'r Gronfa yn gallu parhau â'r strategaeth bresennol.
- Mae'r Gronfa eisoes yn gwneud gwaith o ran buddsoddiadau ffyniant bro, yn cynnwys y gwaith gyda Good Economy, ac yn alinio gyda'r rhan fwyaf o'r cynigion yn y maes hwn. Fodd bynnag, mynegodd Mr Latham bryderon ynghylch y cynnig i adrodd yn erbyn 12 nod ffyniant bro y llywodraeth bresennol. Dywedodd fod y diwydiant yn parhau i wneud cynnydd wrth adrodd yn erbyn nodau datblygu cynaliadwy, ac roedd o'r farn bod y rhain yn dargedau mwy addas i alinio â nhw. Fe ddywedodd hefyd nad yw'r 12 nod yn ymddangos fel eu bod yn cynnwys ynni adnewyddadwy.
- Mae gan y Gronfa hanes hir o fuddsoddi mewn ecwiti preifat – nid yw pob cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gwneud hynny. Fodd bynnag, yn hytrach na chyfyngu hyn i ecwiti preifat awgrymodd y dylai'r diffiniad gael ei ehangu i farchnadoedd preifat er mwyn cynnwys buddsoddiadau dyled a dosbarthiadau asedau eraill.

Dywedodd Mr Latham mai dyddiad cau ymateb i'r ymgynghoriad oedd 2 Hydref 2023, sydd cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 29 Tachwedd.

**PENDERFYNWYD:**

a) Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn gwneud sylw ar y prif bwyntiau a godwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad.
b) Bod y Pwyllgor yn dirprwyo'r cyfrifoldeb dros gymeradwyo'r ymateb terfynol i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

## 5. CYFLWYNIAD COD STIWARDIAETH DRAFFT

Eglurodd y Cadeirydd fod y Gronfa llynedd wedi'i derbyn fel llofnodwr i'r cod stiwardiaeth newydd a bod hynny'n gydnabyddiaeth ffurfiol o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gronfa o ran stiwardiaeth asedau. Cynigir bod y Gronfa yn ailymgeisio eleni er mwyn cynnal y statws llofnodi.

Eglurodd Mr Dickson fod yr adroddiad stiwardiaeth bellach yn cynnwys pob dosbarth o asedau. Ar dudalen 225 amlygodd y 12 egwyddor y mae'r Gronfa yn eu defnyddio i adrodd yn erbyn y cod stiwardiaeth, ac eglurodd fod yr

adroddiad wedi'i osod i fynd i'r afael â phob egwyddor. Mae'r Gronfa wedi cynnwys adborth manwl FRC ar gyflwyniad y flwyddyn flaenorol yn yr adroddiad drafft. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r cod yw 23 Hydref 2023, cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ac felly gofynnir i'r Pwyllgor ddarparu unrhyw adborth ac awgrymu newidiadau, a dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gronfa gymeradwyo'r fersiwn derfynol. Dywedodd y bydd unrhyw newid i'r polisi Buddsoddiad Cyfrifol yn ystod y cyfarfod hwn yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad stiwardiaeth terfynol i ddangos sut mae'r Gronfa yn parhau i wneud cynnydd ac adrodd ar y cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2023.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

a) Ystyriodd y Pwyllgor gynnwys y Cod Stiwardiaeth drafft a gwneud sylwadau arno.
b) Dirprwyodd y Pwyllgor gyfrifoldeb ar gyfer cymeradwyo'r cyflwyniad terfynol i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

## 6. <u>POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL O FEWN Y DATGANIAD STRATEGAETH FUDDSODDI</u>

Eglurodd y Cadeirydd fod gan y Gronfa nifer o sesiynau hyfforddiant ar y pwnc yma, a bod geiriad arfaethedig y buddsoddiad cyfrifol wedi'i gylchredeg cyn y cyfarfod yn barod at ei gyflwyno i'r Pwyllgor ei gymeradwyo.

Aeth Mr Turner drwy adran Buddsoddiad Cyfrifol y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi gan amlygu meysydd allweddol o newid.

- Y newid mawr cyntaf yw sefydlu fframwaith chwe cham clir i asesu addasrwydd ac effaith bosibl unrhyw waharddiad a ystyrir gan y Pwyllgor, ar dudalen 227 y pecyn.
- Ar dudalen 330 mae newidiadau wedi'u gwneud i eiriad targed 4, sef mynd i'r afael â mandadau cynaliadwy erbyn 2030 o fewn y portffolio ecwiti a restrir. Mae'r targed wedi'i newid o 30% i 100% erbyn 2030, gan adlewyrchu'r ffaith bod y Gronfa wedi newid i is-gronfa Ecwiti Cynaliadwy PPC. Bydd y targed hwn yn gofyn i PPC/Russell ymchwilio i bosibilrwydd o is-gronfa marchnadoedd newydd cynaliadwy. Os nad yw hyn yn ymarferol, byddai'r Gronfa o bosibl yn ystyried newid y buddsoddiadau hyn i is-gronfa Ecwiti Cynaliadwy sy'n bodoli'n barod.

Mae adborth ar y geiriad arfaethedig wedi'i dderbyn gan Mr Hibbert a'r Cyng. Swash cyn y cyfarfod.

- O ran y paragraff olaf ar dudalen 330 ac ar dudalen gyntaf tudalen 331, roedd y Cyng. Swash wedi gofyn a yw hyn yn ddigon cryf mewn perthynas â rhoi'r gorau i fuddsoddi yn y diwydiant tanwyddau ffosil – mae Pennaeth y Gronfa wedi darparu ymateb. Eglurodd Mr Turner fod hyn wedi'i ystyried ond cynigir bod y Gronfa yn cadw'r geiriad

presennol sy’n seiliedig ar ddiffiniad yr IIGCC (Institutional Investors Group on Climate Change) o gwmnïau tanwydd ffosil sy’n fwy cynhwysfawr ac sy’n dal cwmnïau drud ar garbon ar draws pob sector, yn cynnwys gweithgynhyrchu, adeiladu a chludiant.

- Roedd y Cyng. Swash hefyd wedi awgrymu tynnu rhywfaint o’r geiriad yn y polisi gwaharddiadau, ac mae’r newid yma wedi’i wneud.
- Roedd Mr Hibbert wedi awgrymu geiriad ychwanegol o ran gweithredu i waredu cwmnïau yr ystyrir bod yr ymgysylltu yn aneffeithiol. Yn seiliedig ar yr adborth yma mae’r geiriad drafft wedi’i ddiweddaru gan gydnabod y cydbwysedd rhwng dyheadau’r Pwyllgor ac ymarferoldeb gwaredu mewn cysylltiad â’r trafodaethau parhaus mewn perthynas â phroses uwchgyfeirio PPC.

Dywedodd Mr Hibbert ei fod yn cymeradwyo’r geiriad.

Aeth Mr Turner drwy’r Polisi Eithriadau arfaethedig yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi. Dywedodd fod datganiad y Bwrdd Pensiynau Lleol o gymeradwyaeth ar gyfer y broses a’u cefnogaeth ar gyfer dull buddsoddi sy’n alinio a Paris, yn briodol. Cadarnhaodd y byddai newid arfaethedig y Bwrdd i’r polisi eithriadau yn cael ei wneud. Eglurodd mai prif amcan y rhan hon o’r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi oedd egluro dyheadau’r Pwyllgor ar gyfer eithrio, a sut mae’r rhain yn cael eu cydbwyso yn erbyn yr heriau gweithredu a’r ymgysylltiad parhaus a fydd ei angen gyda PPC.

Gan gyfeirio at y targedau allweddol yn y portffolio Ecwiti a Restrir ar dudalen 330, holodd y Cyng. Swash a yw’r nod “targedu holl bortffolio Ecwiti a Restrir i gael ei fuddsoddi mewn mandadau cynaliadwy erbyn 2030” yn mynd yn groes i’r targed a geir yn ddiweddarach: “erbyn 2030, bod gan o leiaf 90% o gwmnïau mewn sectorau drud ar garbon strategaethau clir a chredadwy er mwyn cyflawni net-sero neu eu bod yn destun ymgysylltiad i gyflawni’r amcan hwn”. Eglurodd Mr Turner nad yw hyn yn cael ei ystyried fel mynd yn groes hyd yn oed os yw’r holl asedau yn cael eu buddsoddi ar sail ecwiti cynaliadwy mi fydd yna gwmnïau drud ar garbon sydd wedi ymrwymo i lwybr clir tuag at sero net. Mae’r geiriad arfaethedig yn cadw hyblygrwydd i fuddsoddi yn y cwmnïau hynny sy’n newid, yn amodol ar adolygiad rheolaidd.

Cyhoeddodd y Cyng. Swash ei fwriad i gynnig diwygiad i’r strategaeth gan gyfeirio at y ddau darged olaf yn y portffolio ecwiti a rennir (tudalennau 330 a 331): Ar gyfer y targed sy’n dechrau “erbyn 2025” cynigiodd y dylid dileu “70%” a rhoi “90%” yn lle, ac ar gyfer y targed sy’n dechrau “erbyn 2030” cynigiodd newid “o leiaf 90% o gwmnïau” i “pob cwmni” a dileu “neu eu bod yn destun ymgysylltiad i gyflawni’r amcan hwn”. Teimlodd fod hyn yn darparu cam gweithredu clir a mesuradwy.

Dywedodd y Cyng. Swash ei fod ar ddeall bod awdurdodau lleol eraill yn ceisio rhoi’r gorau i fuddsoddiadau o’r fath erbyn 2030, ac roedd yn teimlo, mewn cymhariaeth, bod disgwyl i gwmnïau drud ar garbon gael cynllun sero net yn

ofyniad bach iawn. Hefyd, cwestiynodd pa feini prawf y byddai'r Gronfa yn eu defnyddio i wneud penderfyniad ynghylch pa gwmnïau i roi'r gorau i fuddsoddi ynddynt er mwyn cyrraedd y targed 90%, ac roedd yn teimlo bod hyn yn aneglur. Yn olaf, teimlodd fod nodi nifer y cwmnïau yn hytrach na chanran y buddsoddiadau yn ôl gwerth yn cyfaddawdu effeithiolrwydd y strategaeth gan y byddai'n galluogi'r Gronfa i brynu cyfranddaliadau unigol o werth isel mewn cwmnïau sydd â chynlluniau yn eu lle, er mwyn cyrraedd y targed, heb roi'r gorau i fuddsoddi mewn cwmnïau drud ar garbon. Teimlodd fod ei newidiadau arfaethedig yn egluro bwriad ei gynnig gwreiddiol i ddiwygio'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi, ac y byddai'r Gronfa erbyn 2025 gyda ffon fesur an-rhwymol i fesur y cynnydd, gan gadw'r gofynion erbyn 2030 yn amwys. Teimlodd hefyd bod hyn yn egluro unrhyw ddryswch o ran canrannau.

Roedd Mr Turner yn cydnabod bod sawl elfen gymhleth i ddiwygiadau'r Cyng. Swash ac awgrymodd y dylid darparu ymateb manwl i hyn y tu allan i'r cyfarfod er mwyn ystyried hyn yn briodol ac yn ofalus. Amlygodd nad yw'r polisi wedi'i gyfyngu i gwmnïau sydd yn ymwneud â sectorau tanwydd ffosil yn unig a'i fod yn fwy cynhwysfawr ar draws pob sector o'r economi.

Dywedodd Mr Hibbert y byddai'n anodd derbyn y diwygiad heb weld ymateb manwl a all ddylanwadu ar y canlyniad.

Cynigiodd y Cyng. Swash y dylid diwygio'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi. Gan fynd i'r afael â'r ddau darged diwethaf yn y portffolio ecwiti a rennir ar dudalennau 330 a 331 o'r pecyn, y diwygiad oedd:

- O ran y targed yn dechrau “erbyn 2025”: dileu “70%” a rhoi “90%” yn lle,
- O ran y targed sy'n dechrau “erbyn 2030”: dileu “o leiaf 90% o gwmnïau” a rhoi “pob cwmni” yn lle, a dileu “neu eu bod yn destun ymgysylltiad i gyflawni'r amcan hwn”.

Eiliodd y Cyng. Wedlake y cynnig hwn. Cafwyd pleidlais drwy godi llaw ble'r oedd y rhan fwyaf yn erbyn y diwygiad. Cadarnhaodd Mr Turner y gellir darparu ymateb ysgrifenedig manwl i'r cynnig ar gyfer y Pwyllgor.

Er bod llawer o waith ar ôl i'w wneud, dywedodd y Cyng. Wedlake ei fod yn gwerthfawrogi mewnbwn pob parti a'u cyfraniad at gynnydd y Pwyllgor yn y mater hwn.

Cafwyd pleidlais drwy godi llaw i gytuno ar yr argymhelliad ar gyfer yr eitem hon. Pleidleisiodd y rhan fwyaf o blaid. Pleidleisiodd y Cyng. Swash yn erbyn yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi, yn gwneud sylwadau ac yn cymeradwyo Polisi Buddsoddi Cyfrifol diwygiedig y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi, at ddibenion ymgynghori.

7. **DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU AC YMGYNGHORIADAU**

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn ystyried y diweddariad.

8. **DIWEDDARIAD GWEINYDDU / CYFATHREBU PENSIYNAU**

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn ystyried y diweddariad.

9. **DIWEDDARIAD AR FUDDSODDI AC ARIANNU**

Gofynnodd Mr Hibbert a yw'r Gronfa yn gallu ystyried cyd-barti gwahanol i JP Morgan o fewn y Fframwaith Arian Parod a Rheoli Risg. Eglurodd Mr Dickson er bod banciau mawr eraill ar gael, pan gafodd y mandad ei gychwyn, dewiswyd JP Morgan drwy broses adolygu gynhwysfawr a ystyriodd ffactorau fel gweithredu, ESG a ffioedd. Dywedodd fod y cyd-bartïon amgen hefyd yn debygol o fod yn fanciau buddsoddi ac nad oes dewis perffaith ar gael.

Gofynnodd Mr Hibbert pa mor aml mae'r dewis yma'n cael ei adolygu. Eglurodd Mr Dickson fod yna broses adolygu flynyddol ond mae'r broses o ddewis rheolwr yn cael ei chychwyn yn seiliedig ar ba un ai yw JP Morgan yn cyflawni eu rôl ai peidio.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn ystyried, nodi ac yn gwneud sylwadau ar y diweddariad.

9. **DIWEDDARIAD AR YR ECONOMI A'R FARCHNAD A'R STRATEGAETH FUDDSODDI A CHRYNODEB RHEOLWYR**

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi perfformiad y Gronfa dros y cyfnodau hyd at ddiwedd mis Mehefin 2023, ynghyd â'r diweddariad ar y Farchnad a'r Economi.

10. **FFRAMWAITH RHEOLI RISG, LLWYBR HEDFAN A CHYLLID**

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn ystyried cynnwys yr adroddiad a'r camau amrywiol a gymerwyd.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (HAWL I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod yn rhinwedd paragraff(au) 14 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

10. **PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

Cyflwynwyd a thrafodwyd yr eitem hon ar y rhaglen.

**PENDERFYNWYD:**

a) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r meini prawf gwerthuso ar gyfer ymarfer caffael gweithredwr PPC yn 75% ansawdd a 25% pris.
b) Nododd y Pwyllgor fod PPC yn adrodd ar fenthyca stoc ac ymgysylltiad, a chytunwyd y dylid cylchredeg hyn i'r Pwyllgor cyn cyfarfodydd, ond na ddylid ei gynnwys ar raglenni.
c) Trafododd a chytunodd y Pwyllgor ar eu hymateb i adolygiad themâu stiwardiaeth PPC.

10. **AILSTRWYTHURO ARFAETHEDIG Y TÎM GWEINYDDOL**

Cyflwynwyd a thrafodwyd yr eitem hon ar y rhaglen.

**PENDERFYNWYD:**

a) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r newidiadau i strwythur sefydliadol y Tîm Gweinyddu Pensiynau.
b) Nodi'r cynnydd cychwynnol o £113,000 yn y costau staffio blynyddol.

11. **CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor nodi'r dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol:

- Dydd Mercher 29 Tachwedd 2023
- Dydd Mercher 28 Chwefror 2024
- Dydd Mercher 20 Mawrth 2024
- Dydd Mercher 19 Mehefin 2024

**PENDERFYNWYD:**

Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd gan y Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am gymryd rhan. Cynhelir cyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor ar 21 Tachwedd 2023. Daeth y cyfarfod i ben am 11:16am.

……………………………………

**Y Cadeirydd**